Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

**Hawdd ei Ddeall**

# Cynllun Cyflawni Gweithlu Gofal Cymdeithasol

## Dyma beth rydyn ni'n mynd i'w wneud o nawr tan 2027

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gofal Cymdeithasol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cynllun Cyflawn Gweithlu Gofal Cymdeithasol 2024 i 2027**'.

**Awst 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi dal angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Gallwch edrych beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 39**.



Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **pawb yn y sector gofal cymdeithasol**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Cyfeiriad:** Gofal Cymdeithasol Cymru, Tŷ South Gate, Wood Street, Caerdydd. CF10 1EW

**Ebost:** info@socialcare.cymru

**Ffôn:** 0300 3033 444 **Minicom**: 029 2078 0680

**Twitter/X:** @GofCymdeithasol

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Beth ydy'r cynllun yma ........................................................ 4**

**Am y gweithlu gofal cymdeithasol ........................................... 8**

**Y cynllun ................................................................................. 10**

1. Gweithlu sy'n ymgysylltu, yn llawn cymhelliant ac yn iach ........................................................................................... 12

2. Denu a recriwtio ......................................................................... 16

3. Modelau gweithlu di-dor ............................................................ 21

4. Adeiladu gweithlu sy'n barod yn ddigidol .............................. 25

5. Addysg a dysgu rhagorol ........................................................... 28

6. Arweinyddiaeth ac olyniaeth .................................................... 32

7. Cyflenwad a siâp y gweithlu ....................................................... 36

**Geiriau anodd ........................................................................... 39**

# Beth ydy'r cynllun yma




Rydyn ni eisiau'r gorau ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.



Rydyn ni eisiau i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol:

- teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi
- gwneud eu gwaith yn dda
- a chael y sgiliau maen nhw eu hangen a bod yn hyderus yn yr hyn maen nhw'n ei wneud.




Mae llawer o waith wedi'i wneud yn barod. Rydyn ni wedi siarad am beth sydd wedi cael ei gyflawni yn ein hadroddiad blynyddol.



Ond mae yna heriau o hyd. Er enghraifft:

- Cyflogi digon o staff.
- Cadw staff.



Mae'r staff yn dweud eu bod yn teimlo dan bwysau mawr.  Mae swyddi yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu bod yn anodd iawn ac yn achosi straen.



Mae staff yn gallu teimlo nad ydy eu hamodau gwaith yn ddigon da. A does dim digon o gyfleoedd i ddatblygu yn eu gyrfa.



Mae'n rhaid i ni gyd weithio gyda'n gilydd i newid y pethau yma.





Pan wnaethon ni ofyn i bobl beth roedden nhw'n feddwl, rhai o'r materion roedden nhw'n sôn amdanyn nhw oedd:

- Cyflog.
- Amodau gwaith.
- Hyfforddiant.



Mae pobl hefyd yn teimlo y dylai gofal cymdeithasol fod mor bwysig â gofal iechyd.



Mae hwn yn gynllun am beth rydyn ni eisiau ei wneud dros y blynyddoedd nesaf i wella materion fel y rhain.




Rydyn ni hefyd wedi gwneud cynllun mwy am y pethau roedden ni yn meddwl oedd angen eu newid yn 2020. Gallwch ei weld [yma].

# Llesiant, y Gymraeg a Chynhwysiant



Mae llesiant, y Gymraeg a **chynhwysiant** yn 3 maes rydyn ni wedi meddwl amdanyn nhw yn fawr wrth ysgrifennu'r cynllun yma. Roedden nhw hefyd yn ein cynllun blaenorol.



Mae **cynhwysiant** yn meddwl gwneud yn siŵr bod pawb yn cael eu cynnwys neu yn cymryd rhan. Mae hyn yn gallu meddwl gofyn beth mae pobl yn ei feddwl a gwrando arnyn nhw.

# Am y gweithlu gofal cymdeithasol



Ym mis Mawrth 2022 roedd dros 84 mil o bobl yn gweithio yn y maes gofal cymdeithasol. Ond roedd hyn yn llai nag yn 2021.



Mae'r rhan fwyaf o staff gofal cymdeithasol yn fenywod.



Mae'r staff o bob oedran. Ond mae mwy o staff 46 i 55 oed.



Mae llawer llai o bobl ifanc 16 i 25 oed. Mae hyn yn achosi pryder gan y bydd staff hŷn yn ymddeol yn y pen draw.



Mae’r rhan fwyaf o’r staff yn wyn. Mae hyn wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.




Mae tua 1 o bob 3 gweithiwr yn deall rhywfaint o Gymraeg. Mae hyn yn debyg i boblogaeth Cymru gyfan.



Yn 2022 roedd dros 5,000 o swyddi heb eu llenwi mewn gofal cymdeithasol.



Ar ben hyn bydd mwy o bobl angen gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Mae hyn oherwydd bod pobl yn byw’n hirach.

# Y cynllun

Mae'r cynllun yma yn canolbwyntio ar 7 maes. Dyma nhw:



1. **Gweithlu sy'n ymgysylltu, yn llawn cymhelliant ac yn iach** – mae hyn yn meddwl cynnwys staff a gofalu am eu llesiant.



2. **Denu a recriwtio** - mae hyn yn meddwl recriwtio mwy o staff a dangos i bobl pam y dylen nhw weithio yn y maes gofal cymdeithasol.



3. **Modelau gweithlu di-dor** - mae hyn yn meddwl gweithio mewn ffyrdd effeithiol.




4. **Adeiladu gweithlu sy'n barod yn ddigidol** - mae hyn yn meddwl manteisio i'r eithaf ar wasanaethau ar-lein a gwneud yn siŵr bod staff yn gallu eu defnyddio.




5. **Addysg a dysgu rhagorol** – mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod staff wedi'u hyfforddi'n dda.




6. **Arweinyddiaeth ac olyniaeth** – mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod arweinwyr yn **dosturiol**. A bod cyfleoedd i bobl dyfu yn eu gyrfa. Er enghraifft, i fod yn rheolwr.



**Mae tosturiol** yn meddwl gwrando ar bobl, cymryd yr amser i ddeall pobl, bod yn garedig a helpu pobl.



7. **Cyflenwad a siâp y gweithlu** - mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod digon o staff lle mae eu hangen.





Fe fyddwn ni yn siarad mwy am bob un o'r meysydd yma. Fe fyddwn ni hefyd yn siarad am beth sydd wedi'i gyflawni a beth ydy ein nodau.

# 1. Gweithlu sy'n ymgysylltu, yn llawn cymhelliant ac yn iach

**Mae hyn yn meddwl cynnwys staff a gofalu am eu llesiant.**



Rydyn ni eisiau i staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.



Roedd y staff yn dweud wrthyn ni fod angen newid llawer yn y gweithle i wneud i hyn ddigwydd.

## Rhai pethau sydd wedi'u cyflawni hyd yn hyn:



- Mae ffframwaith iechyd a llesiant wedi'i wneud. Mae hyn yn helpu cyflogwyr a staff i weithio tuag at set o safonau.



- Mae gwasanaeth cymorth iechyd meddwl am ddim i bob aelod o staff iechyd a gofal cymdeithasol ei ddefnyddio.




- Mae cerdyn gweithiwr gofal wedi'i sefydlu. Mae hyn yn rhoi arian i ffwrdd i weithwyr gofal cymdeithasol ar rai nwyddau a phethau eraill.



- Cynhaliwyd ymchwil am delerau ac amodau gweithwyr cymdeithasol.



- Mae grŵp wedi'i sefydlu am gyflog a datblygu gyrfaoedd gofal cymdeithasol. Ei enw ydy **Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol**.



- Cynhaliwyd arolwg o'r gweithlu. Mae hyn wedi cael gwybod am bethau fel llesiant.

**Dyma rai o'r pethau rydyn ni'n eu gwneud ac y byddwn ni'n eu gwneud nesaf:**




- **Cam gweithredu 1** – Fe fyddwn ni yn diweddaru'r fframwaith Iechyd a Llesiant ac yn cefnogi cyflogwyr i'w ddefnyddio.



- **Cam gweithredu 2** – Fe fyddwn ni yn llunio fframwaith ynghylch cyflog teg a staff yn cael eu cydnabod am y gwaith maen nhw'n ei wneud.



- **Cam gweithredu 3** – Fe fyddwn ni yn gofyn i staff beth maen nhw'n feddwl am lesiant bob blwyddyn.



- **Cam gweithredu 4** – Rhoi gwybod i bobl am adnoddau a gwasanaethau i gefnogi llesiant.



- **Cam gweithredu 5** – Dod â phobl at ei gilydd i siarad a rhannu syniadau am lesiant. A sut rydyn ni'n gallu gwella pethau.



- **Cam gweithredu 6** – Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu trin yn deg yn y gwaith.




- **Cam gweithredu 7** – Creu canllawiau ar gadw pobl yn ddiogel yn y gwaith.



- **Cam gweithredu 8** – Fe fyddwn ni yn edrych ar y ffyrdd gorau o edrych ar y cynnydd sy'n cael ei wneud i lesiant.



- **Cam gweithredu 9** – Fe fydd Llywodraeth Cymru yn gweld ydy gwirfoddolwyr a gofalwyr di-dâl yn gallu defnyddio'r gwasanaeth cymorth iechyd meddwl am ddim.



- **Cam gweithredu 10** – Fe fyddwn ni yn rhoi hyfforddiant ar waith ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae hyn yn meddwl trin pobl yn gyfartal ac yn deg. Hefyd yn cydnabod anghenion a chefndiroedd pobl.

# 2. Denu a recriwtio

**Mae hyn yn meddwl recriwtio mwy o staff a dangos i bobl pam y dylen nhw weithio ym maes gofal cymdeithasol.**



Fe wnaeth llawer o weithwyr gofal cymdeithasol ddweud eu bod wedi dechrau'r swydd oherwydd eu bod am wneud gwahaniaeth.



Mae'r gwerthoedd yma mor bwysig i ofal cymdeithasol.



Fe wnaeth mwy na 7 o bob 10 cyflogwr ddweud eu bod yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff.




Mae gweithwyr gofal cymdeithasol wedi dweud wrthyn ni eu bod eisiau newid sut mae pobl yn gweld gofal cymdeithasol.



Dydy llawer o staff ddim yn teimlo eu bod nhw yn cael eu gwerthfawrogi. Maen nhw eisiau i bobl weld pa mor dda mae'r gwaith yn gallu bod.




Mae llawer o weithwyr gofal cymdeithasol wedi dweud wrthyn ni eu bod yn credu bod angen i'r swyddi dalu mwy. Ac i gael eu trin yr un fath â swyddi yn y maes iechyd.



Rydyn ni yn gweithio i wella swyddi yn y maes gofal cymdeithasol. I helpu mwy o bobl i ddewis y swydd fel gyrfa.

**Rhai pethau sydd wedi'u cyflawni hyd yn hyn:**



- Mae rhaglen hyfforddiant Cyflwyniad i Ofal Cymdeithasol wedi'i sefydlu.




- Rydyn ni wedi hyrwyddo'r defnydd o'r wefan **Gofalwn Cymru**.



- Rydyn ni wedi cefnogi cyflogwyr i recriwtio staff.



- Rydyn ni wedi gwneud ymchwil i ddysgu mwy am recriwtio staff.



- Rydyn ni wedi datblygu gwasanaeth anogaeth am ddim  i staff gofal cymdeithasol. Mae hyn er mwyn cefnogi staff sydd â syniadau da neu sydd eisiau datblygu.


**Dyma rai o'r pethau rydyn ni'n eu gwneud ac y byddwn ni'n eu gwneud nesaf:**



- **Cam gweithredu 11** - Fe fyddwn ni yn parhau i hyrwyddo gofal cymdeithasol fel dewis gyrfa dda. Er enghraifft, i ysgolion a cholegau.



- **Cam gweithredu 12** – Fe fyddwn ni yn parhau i redeg rhaglenni hyfforddi sy'n helpu pobl i weithio ym maes gofal cymdeithasol.




- **Cam gweithredu 13** – Fe fyddwn ni yn cynnal digwyddiad arbennig bob blwyddyn i ddathlu gwaith gofal cymdeithasol.



- **Cam gweithredu 14** – Fe fyddwn ni yn gwneud ymchwil i ddeall pa mor bwysig ydy gwirfoddolwyr i ofal cymdeithasol.



- **Cam gweithredu 15** – Gwneud gwaith i newid sut mae pobl yn gweld gofal cymdeithasol.



- **Cam gweithredu 16** – Fe fyddwn ni yn gwneud gwaith i gael mwy o bobl i weithio yn y maes gofal cymdeithasol. A helpu staff i fod eisiau parhau i weithio yn y maes gofal cymdeithasol.



- **Cam gweithredu 17** - Fe fyddwn ni yn edrych i weld faint o bobl sy'n dod i weithio i ofal cymdeithasol. Ac o le maen nhw'n dod.

# 3. Modelau gweithlu di-dor

**Mae hyn yn meddwl gweithio mewn ffyrdd effeithiol.**




Rydyn ni eisiau i bobl gael gofal mor agos at eu cartrefi ag sy'n bosibl.



Mae hyn wedi bod yn anodd oherwydd bod angen gofal ar lawer o bobl.



Pan fydd angen gofal a chymorth ar blant, y nod ydy cadw teuluoedd gyda'i gilydd.



Weithiau dydy hyn ddim yn bosibl, ond mae'n rhaid i blant gael lle diogel i'w alw'n gartref.





Mae'n bwysig bod gweithlu medrus i gefnogi'r rhai sydd angen gofal.



Mae staff gofal cymdeithasol wedi dweud wrthyn ni ei bod yn bwysig canolbwyntio ar beth mae person sy'n derbyn gofal ei eisiau.




Mae angen cymorth ar bobl yn gynnar yn hytrach na gorfod aros am amser hir. Mae'n rhaid i ni stopio sefyllfaoedd rhag gwaethygu.





Mae gweithwyr gofal cymdeithasol hefyd yn credu bod angen i gyfathrebu fod yn well.

**Rhai pethau sydd wedi'u cyflawni hyd yn hyn:**



- Mae pobl a sefydliadau yn gweithio'n well gyda'i gilydd i helpu pobl sy'n derbyn gofal.




- Cyhoeddi Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol.



- Mwy o hyfforddiant a dysgu i helpu pobl i weithio'n well gyda'i gilydd.



- Cael pecyn cymorth ar-lein i helpu asesu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl.


**Dyma rai o'r pethau rydyn ni'n eu gwneud ac y byddwn ni'n eu gwneud nesaf:**



- **Cam gweithredu 18** - Cefnogi gwahanol weithwyr proffesiynol sydd yn cydweithio.



- **Cam gweithredu 19** – Parhau i ddod â phobl at ei gilydd i siarad a rhannu syniadau am gydweithio.




- **Cam gweithredu 20** – Fe fyddwn ni yn parhau i weithio gydag **Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)** ar gynlluniau'r gweithlu. Fe fydd hyn yn ein helpu i gydweithio'n well.



- **Cam gweithredu 21** – Rhannu gwybodaeth i helpu pobl i gydweithio ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

# 4. Adeiladu gweithlu sy'n barod yn ddigidol



**Mae hyn yn meddwl manteisio i'r eithaf ar wasanaethau ar-lein a gwneud yn siŵr bod staff yn gallu eu defnyddio.**

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gynllun am wella gwasanaethau digidol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.




Mae staff gofal cymdeithasol wedi dweud wrthyn ni eu bod eisiau mwy o ddysgu ar-lein.



Roedden nhw'n dweud hefyd ei bod yn bwysig i'r dysgu hwn fod yn **hygyrch**.

> Mae **hygyrch yn** meddwl bod pobl yn gallu ei ddefnyddio'n hawdd, beth bynnag maen nhw ei angen.



Mae staff gofal cymdeithasol yn dal i fod eisiau dysgu wyneb yn wyneb. Maen nhw'n dweud nad ydy dysgu ar-lein yn iawn i bawb. Neu ar gyfer rhai pynciau.

**Rhai pethau sydd wedi'u cyflawni hyd yn hyn**:



- Mwy o arian i helpu gweithwyr mewn gofal cymdeithasol i ddefnyddio gwasanaethau digidol.



- Datblygu hyfforddiant ar-lein.



- Cynnal ymchwil i ddeall sut mae pobl yn dysgu ar-lein mewn gofal cymdeithasol.



- Cynnal ymchwil i ddeall sut i helpu pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol i ddefnyddio mwy o wasanaethau digidol.

**Dyma rai o'r pethau rydyn ni'n eu gwneud ac y byddwn ni'n eu gwneud nesaf:**



- **Cam gweithredu 22** – Gwneud arolwg i ddeall sgiliau digidol staff gofal cymdeithasol.



- **Cam gweithredu 23** – Fe fyddwn ni yn chwilio am ffyrdd o ddatblygu dysgu digidol.



- **Cam gweithredu 24** – Gwneud cynllun o sut i helpu'r staff gofal cymdeithasol i wella eu sgiliau digidol a'u hyder.




- **Cam gweithredu 25** - Cefnogi staff gofal cymdeithasol i deimlo'n hyderus am ddefnyddio gwasanaethau digidol. A gwella eu sgiliau.

# 5. Addysg a dysgu rhagorol

**Mae hyn am  wneud yn siŵr bod staff wedi'u hyfforddi'n dda.**



Mae angen i staff gael y sgiliau a'r cymwysterau cywir i'w helpu i wneud eu gwaith yn dda.



Mae angen i ni wneud yn siŵr bod gennym ni yr hyfforddiant cywir ar waith ar gyfer staff a phobl sydd eisiau gweithio yn y maes gofal cymdeithasol.



Mae staff gofal cymdeithasol wedi dweud wrthyn ni eu bod eisiau ffyrdd gwell o ddatblygu eu gyrfaoedd.



Maen nhw eisiau cael hyfforddiant.Fe ddylai'r rhain gael eu cynnig i ofalwyr a gwirfoddolwyr hefyd.

**Rhai pethau sydd wedi'u cyflawni hyd yn hyn:**



- Hyfforddiant i ddod yn weithiwr cymdeithasol wrth weithio.



- Mwy o gefnogaeth ariannol i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol.



- Datblygu a gwella hyfforddiant i bobl sy'n gweithio yn y maes gofal cymdeithasol.




- Datblygu gwiriwr Cymraeg i helpu pobl i wella eu sgiliau Cymraeg.

**Dyma rai o'r pethau rydyn ni'n eu gwneud ac y byddwn ni'n eu gwneud nesaf:**




- **Cam gweithredu 26** – Gweithio gyda sefydliadau i wneud yn siŵr bod addysg a hyfforddiant yn ateb anghenion y staff.



- **Cam gweithredu 27** - Cefnogi staff gofal cymdeithasol i gael mwy o hyfforddiant ar gyfer datblygu gyrfa. A chefnogi gwirfoddolwyr a gofalwyr di-dâl i gael mynediad at hyfforddiant a dysgu.



- **Cam gweithredu 28** - Ei gwneud hi'n haws i bobl ddechrau gyrfa mewn gofal cymdeithasol.



- **Cam gweithredu 29** – Ei gwneud hi'n haws i bobl ddeall llwybrau gyrfa a dysgu mewn gofal cymdeithasol.



- **Cam gweithredu 30 –** Datblygu a chyflwyno hyfforddiant sy'n helpu pobl gyda phatrymau gwaith. Er enghraifft, pobl sy'n gweithio gyda'r nos.



- **Cam gweithredu 31** - Gwneud yn siŵr nad oes rhaid i bobl wneud rhywfaint o hyfforddiant eto os ydyn nhw'n symud swyddi mewn gofal cymdeithasol.

# 6. Arweinyddiaeth ac olyniaeth

**Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod arweinwyr yn dosturiol a bod cyfleoedd i bobl ddatblygu yn eu gyrfa. Er enghraifft, i fod yn rheolwr.**



Mae angen i ni gael yr hyfforddiant cywir i helpu i ddatblygu arweinwyr da.

Fe wnaeth staff gofal cymdeithasol ddweud wrthyn ni:



- Mae'n bwysig cael  arweinwyr a rheolwyr tosturiol ar bob lefel.
- Dod o hyd i ffyrdd o helpu i ddatblygu ar gyfer y rhai nad ydyn nhw am fod yn rheolwyr.




- Cefnogi staff sydd â sgiliau cryf fel nad ydyn ni yn eu colli.

**Rhai pethau sydd wedi'u cyflawni hyd yn hyn:**




- Gwneud canllaw gydag **AaGIC** ar sut i fod yn arweinydd **tosturiol**.



- Datblygu hyfforddiant ar sut i fod yn rheolwr **tosturiol**.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am wahanol hyfforddiant ar arweinyddiaeth mewn iechyd a gofal cymdeithasol.

Gwella

- Creu gwefan i gefnogi bod yn arweinydd **tosturiol**. Ei enw ydy Gwella.

**Dyma rai o'r pethau rydyn ni'n eu gwneud ac y byddwn ni'n eu gwneud nesaf:**



- **Cam gweithredu 32** - Darparu cefnogaeth i staff a sefydliadau am arweinyddiaeth **dosturiol**. A gwneud yn siŵr bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cael cefnogaeth.



- **Cam gweithredu 33** – Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am raglenni hyfforddi sy'n eu helpu i ddod yn arweinwyr.

Gwella

- **Cam gweithredu 34 –** Gwneud yn siŵr bod pobl yn gwybod am wefan Gwella.




- **Cam gweithredu 35** – Cyhoeddi canllawiau i sefydliadau ar wneud gweithleoedd cadarnhaol.



- **Cam gweithredu 36** - Datblygu hyfforddiant arweinyddiaeth ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.




- **Cam gweithredu 37** – Gwneud yn siŵr bod y Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer Cyflogwyr Gofal Cymdeithasol a gweithwyr Gofal Cymdeithasol yn cynnwys gweithio tosturiol a chadarnhaol.

# 7. Cyflenwad a siâp y gweithlu

**Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod digon o staff lle mae eu hangen.**




Bydd mwy o bobl angen defnyddio gofal cymdeithasol dros yr 20 mlynedd nesaf.



Mae angen i ni gefnogi pobl yn gynnar i helpu i stopio problemau rhag gwaethygu.



Mae hyn i gyd yn meddwl bod angen i ni gynllunio sut y byddwn yn recriwtio staff. A gwneud yn siŵr bod digon o bobl yn gweithio yn y maes gofal cymdeithasol yn y dyfodol.




Fe wnaeth staff gofal cymdeithasol ddweud wrthyn ni fod angen gwell gwybodaeth arnom. Fe fydd hyn yn helpu i gynllunio ar gyfer staff gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

**Rhai pethau sydd wedi'u cyflawni hyd yn hyn:**



- Rydyn ni wedi gweithio gyda chynghorau lleol i feddwl am staffio.




- Rydyn ni wedi newid sut rydyn ni yn casglu gwybodaeth am bobl sy'n gweithio yn y maes gofal cymdeithasol. Mae gennym adroddiad blynyddol o'r enw data'r gweithlu.




- Rydyn ni wedi cefnogi cyflogwyr i feddwl am y rhai sydd angen gofal yn Gymraeg.





- Wedi gweithio i ddeall sut mae awdurdodau lleol yn gwneud y defnydd gorau o'u gwybodaeth.

**Dyma rai o'r pethau rydyn ni'n eu gwneud a byddwn ni'n eu gwneud nesaf:**



- **Cam gweithredu 38** – Datblygu hyfforddiant i helpu pobl i feddwl am staff.



- **Cam gweithredu 39** - Gwneud a gwella cynlluniau'r gweithlu.




- **Cam gweithredu 40** - Cefnogi datblygiad Gwasanaeth Gofal a Chymorth Cenedlaethol.




- **Cam gweithredu 41** – Gwneud cynllun sy'n helpu i gadw staff i weithio yn y maes gofal cymdeithasol.

# Geiriau anodd

### Cynhwysiant

Mae hyn yn meddwl gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu cynnwys neu yn cymryd rhan. Mae hyn yn gallu meddwl gofyn beth mae pobl yn ei feddwl a gwrando arnyn nhw.

### Hygyrch

Mae hyn yn meddwl bod pobl yn gallu ei ddefnyddio'n hawdd, beth bynnag maen nhw ei angen.

### Tosturiol

Mae hyn yn meddwl gwrando ar bobl, cymryd yr amser i ddeall pobl, bod yn garedig a helpu pobl.